**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, RHAN 4. (See end of Document for details)

# ATODLEN 1

## CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## RHAN 4

### SWYDDOGAETHAU ATEGOL ETC.

*Pwyllgorau*

11 (1) Caiff Corff Llais y Dinesydd sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgor neu is-bwyllgor gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r Corff neu fod â phersonau o'r fath yn unig.

(3) Caiff y Corff dalu treuliau a lwfansau i unrhyw berson—

(a) sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, a

(b) nad yw'n aelod o'r Corff, nac yn aelod o'i staff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** Atod. 1 para. 11 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(e)**

*Dirprwyo*

12 (1) Caiff Corff Llais y Dinesydd drefnu i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gael eu harfer gan unrhyw un neu ragor—

(a) o'i bwyllgorau,

(b) o'i is-bwyllgorau,

(c) o'i aelodau, neu

(d) o'i staff.

(2) Nid yw trefniant o dan is-baragraff (1) yn effeithio ar gyfrifoldeb y Corff am arfer swyddogaeth ddirprwyedig, nac ar ei allu i arfer swyddogaeth ddirprwyedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I4** Atod. 1 para. 12 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(e)**

*Pwerau atodol*

13 (1) Caiff Corff Llais y Dinesydd wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn caniatáu i'r Corff fenthyca arian.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 1 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I6** Atod. 1 para. 13 mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, RHAN 4.